Sir Pen-y-bont

# Y Cynllun Gweithredu Cyrchfan 2018-2022





**Mawrth 2018**

## Cynnwys

1. Product ............................................................ **Error! Bookmark not defined.**
2. Experience ......................................................... **Error! Bookmark not defined.**
3. Profile ............................................................................................................ 7
4. Summary of action points ........................................................................ 9

## Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Gweithredu Cyrchfan yn nodi pa gamau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r Cynllun Rheoli Cyrchfan sy'n cyd-fynd ag ef. Mae'r fformat a'r aliniad yn debyg i'r Cynllun Rheoli Cyrchfan a'r Cynllun Gweithredu Cyrchfan blaenorol, a ddaeth i ben yn 2017.

Caiff y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â phob amcan a'u priod feysydd blaenoriaeth eu hegluro. Mae'r tabl o gamau gweithredu wedyn yn amlygu amseriadau, gofynion o ran adnoddau ac ystyriaethau cychwynnol o ran risgiau.

# 1. Cynnyrch

**Blaenoriaeth: Cefnogi datblygiad y cynnyrch twristiaeth**

Os nad yw'r cynnyrch twristiaeth yn cwrdd â'r disgwyliadau yna bydd ymwelwyr yn siomedig ac yn annhebygol o ddychwelyd. Mae'r adran hon yn nodi'r amcanion a'r camau gweithredu ar gyfer ymateb i'r flaenoriaeth hon. Mae angen inni gefnogi llety gwell ac atyniadau gwell.

## 1.1 Cefnogi llety gwell

### *1.1.1 Deall y galw am lety*

- Pan fo'n ofynnol, bydd adroddiadau ar y sefyllfa'n cael eu llunio a'r rheiny'n nodi graddfa a natur y galw yn ogystal â chyfleoedd i fuddsoddi ar gyfer yr holl lety ymwelwyr, yn seiliedig ar ysgogiadau lleol a rhanbarthol a chyfyngiadau perthnasol, gyda thueddiadau perthnasol ac astudiaethau achos arfer da.

### *1.1.2 Cefnogi'r broses o ddatblygu/gwella llety â gwasanaeth o ansawdd da*

- Cyswllt agos â'r Awdurdod Cynllunio mewn perthynas â chynigion i newid defnydd llety ymwelwyr presennol
- Bydd y broses o ddatblygu llety ymwelwyr ar raddfa fach yn cael ei chefnogi lle cyfyd cyfleoedd, yn enwedig yn y Cymoedd trwy Dasglu'r Cymoedd, oni bai fod cyfyngiadau polisi cynllunio dynodedig.

### *1.1.3 Cefnogi'r broses o ddatblygu/gwella llety hunanarlwyo o ansawdd da*

Bydd cymorth yn cael ei roi i wneud y canlynol:

- Datblygu safleoedd carafanau trwyddedig a mathau eraill o ddatblygiadau hunanarlwyo ar raddfa fach megis 'glampio'.
- Gosod ail gartrefi ac adeiladau fferm segur ar gyfer bythynnod gwyliau.
- Datblygu opsiynau ar gyfer meysydd carafanau teithiol yn y Fwrdeistref Sirol.

## 1.2 Cefnogi atyniadau gwell

### *1.2.1 Cefnogi atyniadau a chyfleusterau hamdden newydd a phresennol*

- Bydd y canlynol yn cael eu cefnogi a, lle y bo'n briodol, yn cael eu cyfeirio at asiantaethau cymorth a chyfleoedd i gael cyllid allanol:
    - Datblygiad newydd, priodol, o ansawdd da sy'n ehangu ystod yr arlwy.
    - Safleoedd ac atyniadau treftadaeth, natur a bywyd gwyllt sy'n ategu ac yn ychwanegu gwerth at atyniad yr amgylchedd naturiol a diwylliannol.
    - Gwella cyfleusterau hamdden presennol eraill.

### *1.2.2 Cefnogi datblygiad Twristiaeth Bwyd*

- Lle mae cymorth yn bodoli trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig, bydd anogaeth yn cael ei rhoi i hyrwyddo cynnyrch lleol mewn siopau ac ar fwydlenni, gan ddarparu unigrywiaeth leol yn ogystal ag ansawdd.

### *1.2.3 Creu pecynnau newydd cyffrous*

- Bydd cymorth yn cael ei roi i greu cynhyrchion cyffrous, unigryw newydd sydd wedi'u pecynnu. Bydd anogaeth frwd yn cael ei rhoi ar gyfer hyn mewn ardaloedd y nodwyd eu bod yn cynnig cyfleoedd strategol ac y gellir dwyn gwerth ychwanegol ohonynt.

# 2. Profiad

**Blaenoriaeth: Cefnogi datblygiad seilwaith twristiaeth**

Mae angen sicrhau bod y seilwaith ategol yn ei le i ddiwallu anghenion ymwelwyr a chynyddu potensial twristaidd yr ardal i'r eithaf. Mae a wnelo hyn â chryfhau ansawdd y profiad ar lawr gwlad a darparu'r amgylchedd cywir i gefnogi sector twristiaeth sy'n ffynnu.

## 2.1 Gwella'r adnodd arfordirol

### *2.1.1 Gwella Llwybr yr Arfordir*

- Lle mae cyfleoedd ar gyfer partneriaeth yn bodoli, bydd budd Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei estyn trwy ddatblygu a/neu wella cyfres o deithiau cylchol sy'n cysylltu â chymunedau lleol ac o'u hamgylch ym Merthyr Mawr, y Drenewydd-yn-Notais, Porthcawl, Notais a Chynffig.

### *2.1.2 Gwella ein cyfleusterau arfordirol*

- Byddwn yn cefnogi datblygiad cyfleusterau gwell ar gyfer defnyddwyr a gweithredwyr chwaraeon dŵr/ysgolion yn Nhraeth y Rest.
- Bydd cymorth yn cael ei roi ar gyfer datblygiadau priodol yn Cosy Corner a llwyddiant adeilad Jennings
- Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddatblygu gyda rhanddeiliaid allweddol ar gyfer gwarchod bywydau ar draethau
- Bydd anogaeth yn cael ei rhoi i wella cyfleusterau a mynediad yn y Drenewydd-yn-Notais.

## 2.2 Buddsoddi yn yr aneddiadau

### *2.2.1 Buddsoddi ym Mhorthcawl*

- Bydd y gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu Adfywio Porthcawl yn parhau a bydd y cyfleoedd ar gyfer twf strategol sydd ar gael yn cael eu blaenoriaethu.

### *2.2.2 Buddsoddi ym Mhen-y-bont ar Ogwr*

Cefnogi gwaith gyda Rheolwr Canol y Dref, yr Ardal Gwella Busnes a phartneriaid eraill i wneud y canlynol:

- Rhoi anogaeth ar gyfer rhagor o lety, yn ddelfrydol yng nghanol y dref.
- Gwella nodweddion treftadaeth allweddol gan gynnwys Bryn Castell Newydd.
- Cyflawni gwelliannau i dir y cyhoedd yng nghanol y dref.
- Cefnogi digwyddiadau a mentrau bywiocáu yng nghanol y dref.
- Hyrwyddo'r amwynderau hamdden a chwaraeon.
- Gwella cysylltiadau cerdded a beicio.

#### *2.2.3 Buddsoddi ym Maesteg*

Cefnogi gwaith i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd sydd ar gael trwy ddatblygiad strategol Parc Afan er mwyn:

- Rhoi anogaeth i ddatblygu llety ymwelwyr gan gynnwys gwely a brecwast, ystafelloedd mewn tafarndai, llety hunanarlwyo a safleoedd carafanau lle y bo'n briodol.
- Rhoi anogaeth i ddatblygu a gwella cyfleusterau bwyta allan yng nghanol y dref.
- Cefnogi mentrau bywiocáu trwy ddigwyddiadau lleol a gweithgareddau eraill yng nghanol y dref.
- Cefnogi gwelliant parhaus tir y cyhoedd.
- Datblygu a hyrwyddo llwybrau cerdded a beicio.
- Creu 'hwb' diwylliannol ar gyfer cymoedd Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynyddu i'r eithaf ddatblygiad strategol Neuadd y Dref, Maesteg.
- Cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd sydd ar gael trwy Dasglu'r Cymoedd.

#### *2.2.4 Buddsoddi mewn hybiau lleol eraill*

- Bydd Cynghorau Cymuned yn cael eu hannog i gynnal archwiliadau ac ymgyngoriadau lleol i adnabod ardaloedd, cyfleusterau, gwasanaethau a themâu sydd o ddiddordeb i ymwelwyr a pharatoi cynlluniau ar gyfer gwelliant ffisegol (tir y cyhoedd, eiddo preifat), teithiau cylchol lleol, gwybodaeth, dehongli a hyrwyddo. Mae'r Gronfa Cynghorau Tref a Chymuned ar gael i ystyried cynigion ar gyfer camau gweithredu o'r fath.

### 2.3 Gwella'r adnodd cefn gwlad

#### *2.3.1 Gwella safleoedd cefn gwlad trwy reoli Gwarchodfeydd Natur Lleol mewn modd rhagweithiol*

- Bydd safleoedd mynediad at gefn gwlad yn cael eu gwella â chyllid allanol trwy ddarparu gwybodaeth well ar gyfer ymwelwyr, arwyddion gwell a byrddau dehongli gwell.

### 2.4 Cludiant

#### *2.4.1 Gwella'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus ar gyfer ymwelwyr*

Cefnogi gwaith trwy Fargen Ddinesig Caerdydd, Metro Caerdydd, i lobïo am y canlynol:

- Hyrwyddo'r rhwydwaith gan gynnwys cyfleoedd i gerdded a beicio sy'n gysylltiedig â chludiant cyhoeddus.
- Pecynnu teithiau ar gludiant cyhoeddus gyda gweithredwyr gweithgareddau.
- Gwelliannau i'r seilwaith bysiau a threnau
- Darparu cludiant ar gyfer beiciau i mewn i'r cymoedd ar benwythnosau.

#### *2.4.2 Gwella'r rhwydwaith cludiant preifat ar gyfer ymwelwyr*

- Parhau i adolygu trefniadau parcio ym Mhorthcawl gyda phartneriaid ac ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol.

### 2.5 Adnoddau dynol twristiaeth

***2.5.1 Rhoi anogaeth i fanteisio ar hyfforddiant mewn gwasanaeth cwsmeriaid a gwybodaeth am y cynnyrch***

- Bydd busnesau'n cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a datblygu pan fyddant ar gael, yn enwedig trwy gyflawni dulliau sydd eisoes wedi'u treialu.

***2.5.2 Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddi ym maes rheoli twristiaeth***

- Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i helpu i adnabod anghenion hyfforddi lleol, ar y cyd â mentrau datblygu economaidd, ochr yn ochr ag ymgyrch ymwybyddiaeth i annog gweithredwyr i ymgymryd â gweithgarwch datblygu rheolwyr a hyfforddiant ar gyfer staff.

***2.5.3 Rhoi anogaeth i ddechrau busnesau newydd ym maes twristiaeth***

- Bydd cymorth a chyngor yn cael eu rhoi i helpu pobl i ddechrau busnesau newydd ym maes twristiaeth trwy'r mecanweithiau sydd ar gael i CBS Pen-y-bont ar Ogwr a, lle y bo'n ofynnol, cyfeirio pobl at Busnes Cymru.

# 3. Proffil

**Blaenoriaeth: Codi'r proffil a denu rhagor o ymwelwyr i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae angen i bobl fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei gynnig a chael rheswm i ymweld â Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## 3.1 Hyrwyddo Pen-y-bont ar Ogwr

### *3.1.1 Casglu ymchwil i'r farchnad*

Byddwn yn

- Gosod yr holl ddata a dogfennaeth ymchwil i'r farchnad sydd eisoes ar gael mewn trefn.
- Adnabod yr holl ymchwil sy'n cael ei chynnal ar hyn o bryd gan bartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat a allai fod o werth.
- Llenwi bylchau a adnabuwyd o ran yr hyn y mae ei angen, e.e. gwybodaeth am y proffil ymwelwyr gan ddefnyddio samplau wedi'u hatgyfnerthu yn Arolwg dwyflynyddol Croeso Cymru.
- Cynnal ymchwil ad hoc ar gyfer prosiectau penodol, fel y bo'n ofynnol.

### *3.1.2 Targedu rhannau penodol o'r farchnad yn seiliedig ar ymchwil*

- Canolbwyntio ar y mathau penodol o ddefnyddiwr a fyddai'n fwyaf agored i dderbyn yr hyn y mae'r ardal yn ei gynnig ar hyn o bryd. Wrth i rannau a dargedir gael eu pennu ac esblygu byddant yn cael eu cyfleu i'r holl bartneriaid ac yn cael eu hegluro wrthynt.

### *3.1.3 Cefnogi mwy o ymwybyddiaeth o werthoedd brand y Cyrchfan*

- Gweithio gyda phartneriaid i roi anogaeth i wneud mwy o ddefnydd o werthoedd brand presennol y cyrchfan ac i esblygu'r rhain dros amser.

### *3.1.4 Sicrhau cysylltiadau llwyddiannus â'r cyfryngau twristiaeth*

- Bydd gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus ym maes twristiaeth yn cael ei gydgysylltu a'i alinio â chyfleoedd allweddol

### *3.1.5 Cyflawni gweithgarwch marchnata ar-lein ym maes twristiaeth*

- Bydd y wefan bresennol yn cael ei diweddaru a'i gwneud yn fwy addas i'w diben
- Bydd sianeli allweddol yn y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i ymgysylltu ag ymwelwyr ac annog pobl i ymweld.
- Bydd ap Cyrchfan Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei ddiweddaru a'i hyrwyddo

### *3.1.6 Gweithio gydag eraill ar farchnata thematig*

- Byddwn yn parhau i weithio gyda Siroedd cyfagos lle mae cyfleoedd yn bodoli sydd o werth i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

### *3.1.7 Rhesymoli deunydd wedi'i argraffu a'r modd y caiff ei ddosbarthu*

- Bydd adolygiad blynyddol o lenyddiaeth wedi'i hargraffu a'r modd y caiff ei dosbarthu'n cael ei gynnal i sicrhau bod y dull a fabwysiadwyd yn rhoi gwerth am yr arian sydd ar gael bob blwyddyn ac yn ymateb i dueddiadau yn y farchnad.
- Bydd menter ragweithiol barhaus i annog rhagor o olygyddion arweinlyfrau ac ysgrifenwyr eraill ym maes teithio i ymweld â'r ardal a bwydo newyddion iddynt yn rheolaidd am ddatblygiadau, digwyddiadau a gweithgareddau.

## 3.2 Datblygu portffolio amrywiol o ddigwyddiadau

### *3.2.1 Cefnogi digwyddiadau presennol i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn llwyddiannus*

- Bydd y ffocws ar gynaliadwyedd, y gallu i gynyddu yn unol â'r gofynion, iechyd a diogelwch a bydd yn cefnogi'r rhain.
- Bydd y Pecyn Cymorth Rheoli Digwyddiadau yn cael ei hyrwyddo i gael ei ddefnyddio gan drefnwyr digwyddiadau.
- Bydd y model gwerthuso effaith ar gyfer digwyddiadau'n cael ei hyrwyddo i gael ei ddefnyddio gan drefnwyr digwyddiadau.
- Bydd y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau'n rhoi cyngor a chymorth i'r digwyddiadau hynny sy'n eu ceisio ac yn ystyried darparu adnoddau lle mae eu hangen i sicrhau profiad a diogelwch ymwelwyr.

### *3.2.2 Denu digwyddiadau newydd ac iddynt arwyddocâd rhanbarthol neu genedlaethol*

- Bydd y ffocws ar ddenu digwyddiadau sy'n cynnig y mwyaf o gyfleoedd i ddwyn budd i'r Fwrdeistref Sirol a bydd achosion busnes am gymorth ariannol yn cael eu hystyried fesul achos unigol.

## 4. Crynodeb o bwyntiau gweithredu

| **Blaenoriaeth 1 Cefnogi datblygiad y cynnyrch twristiaeth** | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwynt Gweithredu** | **Cyfnod (blynyddoedd)** | **Gofyniad o ran adnoddau** | **Lefel y risg** |
| **Cefnogi llety gwell** | | | |
| *Deall y galw am lety* | 1-5 | I | I |
| *Cefnogi'r broses o ddatblygu/gwella llety â gwasanaeth o ansawdd da* | 1-5 | I | I |
| *Cefnogi'r broses o ddatblygu/gwella llety hunanarlwyo o ansawdd da* | 1-5 | I | I |
| **Cefnogi atyniadau gwell** | | | |
| *Cefnogi atyniadau a chyfleusterau hamdden newydd a phresennol* | 1-5 | I | I |
| *Cefnogi datblygiad Twristiaeth Bwyd* | 1-3 | C | I |
| *Creu pecynnau newydd cyffrous* | 1-5 | I | I |
| **Blaenoriaeth 2: Cefnogi datblygiad seilwaith twristiaeth** | | | |
| **Pwynt Gweithredu** | **Cyfnod (blynyddoedd)** | **Gofyniad o ran adnoddau** | **Lefel y risg** |
| **Gwella'r adnodd arfordirol** | | | |
| *Gwella Llwybr yr Arfordir* | 3-5 | C | I |
| *Gwella ein cyfleusterau arfordirol* | 1-5 | C | I |
| **Buddsoddi yn yr aneddiadau** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Buddsoddi ym Mhorthcawl* | 1-5 | U | C |
| *Buddsoddi ym Mhen-y-bont* | 1-5 | C | C |
| *Buddsoddi ym Maesteg* | 1-5 | C | C |
| *Buddsoddi mewn hybiau lleol eraill* | 1-5 | I | I |
| **Gwella'r adnodd Cefn Gwlad** | | | |
| *Gwella safleoedd cefn gwlad trwy reoli Gwarchodfeydd Natur Lleol mewn modd rhagweithiol* | 1-2 | C | C |
| **Cludiant** | | | |
| *Gwella'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus ar gyfer ymwelwyr* | 1-5 | C/U | C |
| *Gwella'r rhwydwaith cludiant preifat ar gyfer ymwelwyr* | 1-5 | C/U | C |
| **Adnoddau dynol twristiaeth** | | | |
| *Rhoi anogaeth i fanteisio ar hyfforddiant mewn gwasanaeth cwsmeriaid a gwybodaeth am y cynnyrch* | 1-3 | L | L |
| *Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddi ym maes rheoli twristiaeth* | 1-3 | L | L |
| *Rhoi anogaeth i ddechrau busnesau newydd ym maes twristiaeth* | 1-3 | L | L |

## Blaenoriaeth 3: Codi'r proffil a denu rhagor o ymwelwyr i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| Pwynt Gweithredu | Cyfnod (blynyddoedd) | Gofyniad o ran adnoddau | Lefel y risg |
|---|---|---|---|
| **Hyrwyddo Pen-y-bont ar Ogwr** | | | |
| *Casglu ymchwil i'r farchnad* | 1-5 | I | I |
| *Targedu rhannau penodol o'r farchnad yn seiliedig ar ymchwil* | 1-5 | I | I |
| *Cefnogi mwy o ymwybyddiaeth o werthoedd brand y Cyrchfan* | 1-5 | I | I |
| *Sicrhau cysylltiadau llwyddiannus â'r cyfryngau twristiaeth* | 1-3 | I | I |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Cyflawni gweithgarwch marchnata ar-lein ym maes twristiaeth* | 1-3 | C | I |
| *Gweithio gydag eraill ar farchnata thematig* | 1-2 | I | I |
| *Rhesymoli deunydd wedi'i argraffu a'r modd y caiff ei ddosbarthu* | 1-5 | I | I |
| **Datblygu portffolio amrywiol o ddigwyddiadau** | | | |
| *Cefnogi digwyddiadau presennol i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn llwyddiannus* | 1-5 | I | C |
| *Denu digwyddiadau newydd ac iddynt arwyddocâd rhanbarthol neu genedlaethol* | 1-5 | C/U | C |

Nodiadau:

- Mae'r gofynion o ran adnoddau 'yn nhrefn eu maint' a gallant amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar ystod y prosiect. Yn fras, gall 'Isel' fod hyd at £25,000, gall 'Canolig' fod hyd at £100,000 ac mae 'Uchel' yn uwch na £100,000.
- Mae lefelau'r risg yn seiliedig ar hyfywedd masnachol neu fethiant i gyflawni'r cam gweithredu'n gywir. Bydd asesiadau o'r risgiau'n cael eu hystyried pan ymgymerir â phob menter